

BMC CYMRU



CYFARFOD NESAF 24AIN TACHWEDD 6PM


Plas y Brenin - bwyd yn rhad ac am ddim

Cyfarfod nesaf

Diwrnod o hwyl Dringo a Mynydda BMC Cymru, yn cynnwys gweithgareddau, mynedfa wal dringo, bwyd, a sioe luniau gan Ray Wood, Mark Reeves ac eraill, yn oll yn rhad ac am ddim.

- AGM
- Llwybr y Cromlech: beth yw eich barn?
- Swyddog Cymreig: beth yw eich barn?
- Fforwm agored a materion eraill o'r cylchlythyr

Llwybr y Gromlech



Ni cheir disgrifiad o ddynesiad l'r Gromlech yn llawlyfr cyfredol Bwlch Llanberis ac mae'r disgrifiadau sydd ar gael yn llawlyfr 'Selected Climbs' yn ddigon amwys hefyd. Am flynyddoedd mae ymwelwyr wedi dringo'r rhiw yn llafarus yn syth i fyny'r 'sgri angau' islaw y clogwyn.

Tueddiad y bobl leol yw defnyddio gwell lwybr i'r chwith.

Mae gwybodaeth eangach am fodolaeth y llwybr hyn wedi arwain at erydiad a gwaethygiad cyflym i'r rhan o dan Clogwyn Ettws. Wrth ystyried y ffaith mai'r rheswm y penodwyd yr ardal hon statws SSSI yw oherwydd mae'n cynnwys rhai o'r llethrau scrî asidic mwyaf sefydlog y byd, mae'n hawdd gweld angen datrys y broblem.

Mae BMC Cymru wrthi yn ymchwilio posibiliadau ac mae angen arnon ni wybod eich barn chi, y rhai sy'n ei defnyddio. Dewch ymlaen i'r cyfarfod

nesaf i roi eich safbwynt os gwelwch yn dda.

Swyddog BMC Cymru

Ers talwm mae sïon ar led y dy-lai Cymru gael ei Swyddog BMC ei hun. Beth yw eich barn chi? Dewch ymlaen i'r gyfarfod nesaf i glywed y manteision a'r anfanteision, a roi'ch barn chithau.

Cronfa Bowltiau Gogledd Cymru

Mae rhagor o arian wedi cyrraedd y gronfa oddi wrth Wyl Gogarth, y Climbers Club a'r Mountain Training Trust. Oes angen canllawiau? 'Nagoes' oedd ymateb y dringwyr lleol.



Nid oes angen newid sefyllfa sy'n gweithio. Wedi dweud hyn peidiwch a gadael i lwybrau newydd ymyrryd a'r rhai sydd eisioes yn bodoli.

Mae'r arfer sgrifennu enwau llwybrau ar eu gwaelodion wedi dod I ben! Bydd Gary Gibson yn ail-osod y bowltiau-gostwng yn Llanymynech, ac mae modd gweld rhestr bowltiau sydd eisioes wedi eu cardanhau ar gyfer ail-fowltio ar www.northwaleslimestone.wetp.aint.com.

Mae'r cronfa mewn dyled i lawer o bobl a grwpiau am eu cymorth ymarferol ac arriannol:

Dragon Safety Systems - Rhaff abseil, cyngor technegol a defnydd profiwr bowltiau
CAN - Rhaff abseil
DMM - Rhaff abseil
Climbers Club - Cyfraniad mawr arian
BMC - 1395 bowlt

Heb son am gymorth y Beacon Climbing Centre, V12 a Joe Browns am helpu codi dros £1200 oddi wrth unigolion; heb son hefyd, wrth gwrs, am bobl fel Mark Dicken a Mark Reeves sy'n gwneud gwaith ail-fowltio.

Da iawn, bawb; mae'r llech yn ferw! Os na dych chi wedi cyfrannu eto cewch ei wneud ar y Diwrnod o Hwyl (gweler uchod). Gwell hwyr na hwyrach!

LLAMFF

'Nôl unwaith eto!



Bydd 4ydd Gwyl Ffilm Mynydda Llanberis a chystadleuaeth ffilm yn rhedeg dros penwythnos 1af Mawrth, 2008, a cofiwch roedd cyflwr yr iâ a'r eira ar adeg y tri gwyl diwethaf yn wych.

Hyfforddiant i gynrychiolwyr mynediad

Mae cyfle yn bodoli i bobl ymuno â chwrs hyfforddiant cynrychiolwr mynediad BMC, ar y 3ydd o Dachwedd ym Manceinion. Mae'r diwrnod yn un hwylus a defnyddiol, a dwi'n annog unrhywun sydd â diddordeb i ddod. Mae'r sesiynau yn cynnwys; y sefyllfa cyfreithiol, deddfwriaith bywyd gwyllt, grwpiau cadwreath, sut i drîn a thrafod mynediad, defnyddio'r RAD a llawer o amswer i sgwrsio yn anffurfiol.

Os oes gennych chi unrhyw diddordeb danfonwch email i Mike Raine mikerraine@hotmail.com <<mailto:mikerraine@hotmail.com>> am fwy o wybodaeth, neu galwch ar 01286 870865.

Mynediad Arfordirol



Roedd y cyfarfod rhwng Kalt Flitcroft ac Ian McMorrin gyda Jane Davidson, Y Gweinidog dros Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai ar y 3ydd o Fedi yn bositif.

Adroddwyd Kath ac Ian i Jane Davidson fod yn ymrwymedig i'r llwybr arfordirol Cymraeg ac mai hawl mynediad agored i'r coridor arfordirol cyfan o lwybr i flaendraeth buasai'r dewis personol.

Er i hyn fod yn hynod galonogol, ni all ond ddod yn Ddeddf Gymraeg os canfuwyd galw iddo ymysg pobl Cymru. Dyma ble gallwch chi gyfrannu!

Ewch i adran Mynediad a Chadwraeth www.thebmc.co.uk ac anfonwch y llythyr ymgyrch Mynediad Arfordirol Cymraeg parod (yng Nghymraeg neu yn Saesneg) i Jane Davidson ac i'ch Aelod Cynulliad lleol.

Difrod Ecolegol i Fynyddoedd Eryri

Gall yr Heddlu helpu!



Mae'r Heddlu yn fodlon helpu i atal y niwed hwn drwy dal ac erlyn y troseddwy.

Edrydd Malcolm Creasy o Hyfforddi Arweinwyr Mynydd "ar ymweliad safoni diweddar i weld grŵp hyfforddi AM uwchlaw Tanygrisiau cefais fy siomi gan faint y difrod mewn un man a achoswyd gan feiciau llwybr.

Heb ddymuno i ladd ar hwyl (roeddwn i hefyd yn feiciwr unwaith), nid wyf yn deall sut mae rhai pobl yn cael 'get away' ag achosi cymaint o ddifrod dros amser mor fyr.

Rwyf yn ymwybodol bod y broblem wedi bod ar dwf ers rhai blynyddoedd mewn sawl ardal, ond yn sicr mae pethau wedi mynd yn rhy bell nawr! Mae rhai o'r traciau yma yn arwain yn uchel i'r mynyddoedd, ac ond fater o amser yw hi cyn i rywun cael ei frifo'n ddifrifol ymhell o'r ffyrdd a rhaid i Dîm Achub Mynydd ei helpu i ddiogelwch (ac nid yn rhy dyner, gobeithiwn). Pa fodd bynnag,

beth sydd o fwy pryder yw'r maint o ddifrod a achoswyd dros amser mor fyr, a'r ffaith bod y rheini sydd yn gyfrifol ond yn pwyntio i faint yr erydiad a achoswyd gan y miloedd aneirif o draed dros genedlaethau ac yn methu gweld y gwahaniaeth. Wel dyna ddigon ar refru, mi wn nad y chwi sydd ar fai, ond gadewch i mi wybod os oes gennych ddatrysiad i'r broblem - yn sicr nid oes gennyf i!"

Ychwanegwch y rhif yma i lyfr cyfeiriag eich ffôn symudol a byddwch yn barod i'w ddefnyddio i adrodd unrhyw beicio di-llwybr a welwch yng Ngogledd Cymru

0845 6071002

Dyddiadau Cyfarfod 2008

Gallwn drafod y rhain yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Y dyddiadau arfaethedig yw:

Chwefror 12fed
Ebrill 8fed
Ebrill 26ain Gŵyl Tremadog
Mehefin 3ydd
Medi 2ail
Tachwedd 29ain

A ydym eisiau cyfarfod yn y Vaynol eto? A ydym eisiau cyfarfod ar yr Orme eto? A ddylem fynd i Glwyd? Ai Nos Fawrth yw'r noson orau dal i fod? A ydym yn dychwelyd i PYB ar gyfer y cyfarfod AGM?

Diwrnod o Hwyl Dringo a Cherdded Mynydd y BMC Cymru/Wales

Bydd y digwyddiad newydd cyffrous yma yn cymryd lle ym Mhlas y Brenin ar Ddydd Sadwrn 24ain Tachwedd.

Bydd mynediad am ddim i wal ddringo PYB trwy'r dydd. Bydd

y cyfarfod yn cychwyn am 6 o'r gloch y nos ac yn cynnwys AGM fyr. Bydd trafod ynghylch gwaith llwybr droed a rheolaeth erydiad wrth fannau dringo a bowldro yng Nghymru (A ydym eisiau gweld llwybr hawdd ei ongl yr holl ffordd i'r Gromlech? Dewch draw i rannu eich barn). A ddylem wthio am Swyddog Cenedlaethol Cymraeg BMC? Trafod agored i gynnwys unrhyw faterion yn codi o'r daflen newyddion.

Bydd gwerthiant lyfrau yn cynnwys llyfrau dringo a mynydda prin am brisiau rhesymol (gallwch ddod a'ch llyfrau chi i werthu hefyd).

Rhoddir y cyfle i gyfrannu at Gronfa Boltau Gogledd Cymru. Cofiwch fod pob boltt yn costio £6 - sawl boltt ydych chi wedi clipio'r flwyddyn yma?

Bydd pryd o fwyd am ddim ar gyfer pawb sydd yn troi i fyny a chyflwyniad clyweled am 8 o'r gloch yn cynnwys delweddu syfrdanol gan ddau o ffotograffwyr dringo pennaf Prydain, Ray Wood a Mark Reeves, pleiser prin werth ei weld (croesawyd ymyrwyr).



Rydym yn bwriadu rhedeg gweithdai am ddim yn ystod y dydd. Mae angen chwech o bobl i bob gweithdy rhedeg, felly gadewch i mi wybod os oes gennych ddi-ddordeb yn y rhain:

- Mordwyo gan ddefnyddio map a chwmpawd yn unig
- Mordwyo gyda System Lleoli Fyd-eang
- Hyfforddi sgiliau symudiad
- Dadansoddiad Fideo Dringo
- Hunan achubiaeth
- Daeareg Eryri

A dweud y gwir, gallwn wneud unrhyw beth ydych chi eisiau neu gallwch gynnig i redeg gweithdy.

Gyrrwch e-bost i mi, mikerraine@hotmail.com, i roi gwybod eich meddylion neu i fwcio lle mewn gweithdy. Rhaid i lefydd cael eu bwcio a'u cadarnhau erbyn Tachwedd 5ed.

Agenda AGM

Ymddiheiriadau
cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n ymgodi
Adroddiad blynyddol
Etholiad swyddogion, pawb yn gymwys am ail-etholiad, dalwyr swyddi presennol mewn crom-fachau.

Cadeirydd (Mike Raine)
Ysgrifennydd (Keith Robertson)
Cynrychiolwyr Cyngor Cenedlaethol (Mike Raine, Roger Benion, Stu Llewelyn)
Grwp Cyd-drefnu Mynydda (Mike Raine)
MLTW (Andy Boorman)
MLTUK (Neil Johnson)
Cynrychiolwr Wal Ddringo (Mike Simkins)
Swyddog Ieuenctid (Mark Dicken)
Cynrychiolwyr Pwyllgor Etifeddiaeth (KC Gordon)
Dyddiad y cyfarfod nesaf

Mynediad i Ben Trwyn Isaf



Dynesiad i Ben Trwyn Isaf
Mae'r ceunant a ddefnyddir yn draddodiadol fel llwybr disgyn yn dangos arwyddau cynnyddol o erydiad. Bydd sefydlogi ymhellach yn anodd am fod yr erydiad mor bell i lawr a'r fam-graig, a'r dymuniad i beidio a denu twristiaid cyffredin i'r ardal.

Mae llwybr disgyniad arall wedi cael ei gynnig. Byddai'n gwneud daioni pe bai dringwyr yn arbrofi gyda hwn, ac yn mynegi atborthiant ar www.northwaleslimestone.wetp.aint.com

Dynesiad arall awgrymedig:
Heibio i'r toll-dŷ, ble mae'r heol yn culhau wrth gât arall, croeswch y wal ac ewch yn syth lawr spardun glaswelltlog sy'n arwain at sgrialfia byr a rhwydd ar graig, ac yna i'r traeth.

Grwp Mynediad a Chadwraeth BMC

Mae'r grwp yma yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn, dwywaith ym Manceinion, a dwywaith "ar yr heol". Ym mis Medi, tro Cymru oedd hi i'w gynnal.

Adroddais i ar fenterau Mynediad a Chadwraeth yng Ngogledd Cymru, ac ar ddatblygiad grŵp ymestun BMC Cymru yn Nê Cymru a beth mae'n nhw wedi bod yn gwneud mor belled. Clywom sylwadau addawol iawn o gyfarfod Kath

Flintcroft ac Ian McMorris gyda Jane Davidson (gwelir stori mynediad arfordirol).

Cawsom drafodaeth hefyd ynglun a Chôd Creigiau newydd y BMC, gobeithiwn mai dyma bydd y safon ar gyfer pob un sy'n defnyddio'r creigiau, os yn unigolion neu mewn grwpiau. Mae'n ymddangos yn dadunol i rhoi'r bai yn barhaol ar grŵpiau am wneud llanast ar y creigiau, tra ei fod yn ddiamau nid yw pob grŵp wedi'u trefnu'n dda, mae'r rhan fwyaf yn drefnus, y grŵpiau oedd y rheswm y golon ni mynediad i Graig y Forwen a'r creigiau bach yn ardal y Peak. Trafodod hefyd ddatganiad hygyrchedd, pyllau a chwarelau, cyfyngiadau adar a'r adolygiad CROW i ddod.

MLTUK

Roeddwn i'n bresennol yn y cyfarfod diwethaf yn Iwerddon ym Mis Medi ar rhan y BMC Cymru am fod Neil Johnson dal yn yr Alpau.

Trafodod gynhyrchu y llyfr "cerdded bryniau" yng Nghymraeg (beth 'rydych chi'n meddwl? byddwch chi'n ei brynu?) adroddiadau Grŵpiau ffynhonnell hyfforddiant cenedlaethol, MLTA, diffyg cymedroliaeth gwobrwyau y BEL (dylai'r MLTUK gynhyrchu gwobr cerdded safon isel?) Gwaith tramor gan y MI, a llawer o adroddiadau wrth trefniadaethau a gynrhydilowyd, wedyn aethom i ddringo ar y Burren am bedair diwrnod gwych.



Cyngor Cenedlaethol

Bu i'n cyfarfod Medi ei gynnal yn Swanage, a oedd yn darparu dringo gwych ar y ddau ddiwrnod, a'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn hwyr ar y nos Sadwrn.

Trafodwyd materion megis geirfa derfynol y Côt Craig, a ddylai'r BMC fod â Pholisi Beicio Mynydd (beth ydych yn ei feddwl?), adroddiadau lleol, ymgyrch aelodaeth, aelodau ac arsyllwyr cyfetholedig, polisi ecwiti ac amrywiaeth BMC, polisi aelodaeth BMKC ar gyfer mynychu digwyddiadau BMC, cyfeiriodd Cho-Oyu Shootings at Amnesty ac ymddengys fod dim ond ychydig o alw o ardal oedd am weld cofnodion y Cyngor Cenedlaethol ar y we.

MLTW

- Gwefan newydd yn cael ei ddatblygu nawr - gobeithio ei lansio yn ffurfiol tuag at ddiwedd y flwyddyn.
- Nifer o gofrestru am Wobrau MLTW Awards - ML (S), WGL a SPA - wedi cynyddu'n sylweddol eleni, ac mae dau ddarparwr newydd wedi eu cymeradwyo.
- Partneriaeth Ogledd Gorllewinol Cymru - mae'r prosiect hwn wedi cael cryn effaith ar y llawr gyda nifer o glybiau lleol awyr agored newydd. Bydd arian yn rhedeg allan yn 2008 a gobeithir y bydd WAG yn parhau i'w ariannu wedi hyn.

Andy Boorman

Wiki's

Peidiwch ag anghofio ymweld y Wiki's canlynol ac ychwanegu eich sylwadau
www.gogarth.wetpaint.com
www.slate.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com

Mae gan yr holl wefannau ddolenni tywydd gan gynnwys y camerâu agosaf, felly gallwch gymryd cipolwg ar y tywydd cyn mynd.

Hei chi ifanc!

Mae cryn dipyn yn digwydd ymysg y dirywiedig Gogledd Cymru a phenboethiaid sy'n cael eu galw'n 'bobl ifanc'.

Yn The Beacon roedd Cystadleuaeth Bowldro "Yn Ôl i'r Ysgol" ar gyfer plant 7-17. Bu presenoldeb da gyda 38 ceisiwr yn dod o fannau mor bell â Lerpwl, Amwythig a Manceinion.

Cafwyd llawr o hwyl, a bu perfformiadau gwych, gydag arddangoswyr llwybrau yn cael eu gwthio i'r eithaf. Diolch i'r Beacon am y digwyddiad dielw yma, a'r gwirfoddolwyr a sicrhodd fod y digwyddiad yn digwydd. Mae'n werth son hefyd fod The Beacon wedi bod yn rhedeg clybiau cyfrandaedig i blant ers sawl blwyddyn bellach ac wedi gwneud ei orau i annog ieuenctid Gogledd Cymru i ddringo fel adloniant.

Trwy'r gaeaf mae cyfanred bowldro gaeaf, â chategori ar gyfer ieuenctid. Y flwyddyn hon mae The Brecon yn casglu £1 "ffi ffurflen" i godi arian ar gyfer Cronfa Bolltion Gogledd Cymru, felly dewch a'r plant bach i fod yn rhan o'r hwyl.

Mewn mannau eraill mae si ar led fod plant yn trefnu pethau eu hunain, yn llwgrwobrwyo rhieni i roi liff, neu'n beicio i'r Pas, mat ar eu cefnau. Mae dihirod wedi eu gweld yn danfon datrys problem y min, neu'n cael "Cyfarfodydd Ar Ôl Ysgol" yn y chwareli llechi. Rhaid cadw golwg ar hyn, rhag iddynt

ein disodli.

Mark Dicken

Mountain Heritage Trust

Cyfarfod 28ain Medi 07 yn swyddfeydd BMC ym Manceinion

Mae'r ymddiriedolaeth yn parhau i fod â diddordeb mewn canfod ffynonellau treftadaeth mynydd pellach ac fe fydd yn cysylltu â chlybiau a mynyddwyr blaenllaw a'u teuluoedd i geisio cael manylion o unrhyw eitemau ar gael. Mae mynediad i'r Natoinal Mountain Exhibiton (NME) yn Rheged, Penrith, nawr am ddim.

Y flwyddyn nesaf, bydd NME yn cynnal dwy arddangosfa i ddynodi pen-blwydd 75ain achubiaeth mynydd yn Lloegr a



Chymru ac esgyniad gyntaf wyneb gogleddol yr Eiger. Unwaith eto mae rhan o'r wyl fynydd yn Kendal yn cael ei gynnal yn Rheged. Bydd Max-ine Willett, archifydd MHT yn treulio pythefnos ym mis Medi yn cynorthwyo'r Scottish Mountain Heritage i gatalogi eu casgliad.

KC Gordon

Goriad Gwyrdd Parcio yn Cromlech

Bydd ymwelwyr cyson i encilfa Pont y Gromlech yn ymwybodol o'r gorlenwad parcio yma. Mae cerddwyr ar y ffordd i'r Wyddfa yn parcio yma er mwyn osgoi'r gost o £4 drwy barcio yn Pen y Pas neu os yw maes parcio Pen y Pas yn llawn, ac yna yn dal bws Sherpa'r Wyddfa i fyny'r rhiw.

Mae hyn yn achosi teimladau o rwystredigaeth i gerddwyr, rhai sy'n sgramblo neu bowldrwy a dringwyr sydd am ddechrau eu diwrnod o'r man hwn. Mae Eryri Bywiol bellach ar fwrdd rheoli Goriad Gwyrdd felly rydym wedi gofyn iddynt a yw'n bosib gofyn i'r cwmni bws beidio codi teithwyr yn Pont y Gromlech yn y boreau.

Yr ymateb oedd: "roedd y grŵp yn gweld eich cynnig i'r bws Sherpa beidio codi teithwyr yn y bore yn anymarferol. Os yw'r gyrrwr yn aros i ollwng teithwyr, bydd wedyn sefyllfa o orfod dweud wrth bobl sy'n aros am y bws nad ydynt yn cael teithio arno, ac nid yw hyn yn ddull ymarferol nac addas.

Efallai wir fod parcio hawdd ar gyfer gweithgareddau byr yn rhwystredig ond mae gwasanaeth bws dibynadwy (dyma graidd y peth ac nid yw ar hyn o bryd yn cael ei ddosbarthu) o Nant Peris i Cromlech y gall dringwyr a bowldrwy ei ddefnyddio (ac mae digon o le i fatiau a bagiau mawr) ac y gall roi mynediad i'r safle petai'r encil fannau yn llawn. Newid meddylfryd o ddefnyddio car i fws yw craidd menter Goriad Gwyrdd."

Bwyd da lleol: Saffron

Dylai cerddwyr a dringwyr sy'n chwilio am fwyd da yn Llanberis fynd i Saffron, sydd bellach yn cael ei redeg gan gydweithrediad lleol. Mae'r siop yn cael ei staffio yn rhannol gan wirfoddolwyr awyddus i ymateb i'ch anghenion. Mae'n agored bob dydd hyd at 5.30 pm.



CRAG CODE

Access	Check the Regional Access Database (RAD) on www.thebmc.co.uk for the latest access information
Parking	Park carefully – avoid gateways and driveways
Footpaths	Keep to established paths – leave gates as you find them
Risk	Climbing can be dangerous – accept the risks and be aware of other people around you
Respect	Groups and individuals – respect the rock, local climbing ethics and other people
Wildlife	Do not disturb livestock, wildlife or cliff vegetation; respect seasonal bird nesting restrictions
Dogs	Keep dogs under control at all times; don't let your dog chase sheep or disturb wildlife
Litter	'Leave no trace' – take all litter home with you
Toilets	Don't make a mess – bury your waste
Economy	Do everything you can to support the rural economy – shop locally

BMC Participation Statement — Climbing, hill walking and mountaineering are activities with a danger of personal injury or death. Participants in these activities should be aware of and accept these risks and be responsible for their own actions and involvement.